# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 05.08.10

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Louise Hughes, Peter Read

**Hefyd yn bresennol:** Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Glynda O'Brien (Swyddog Pwyllgor).

**<u>Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod</u>:**

| | | |
|---|---|---|
| **Ar ran Farringtons :** | Miss Jo Taylor | (Personal Licence Training Ltd) |
| | Mr Lee Hankinson | (Ymgeisydd) |
| **Ar ran yr Heddlu: :** | Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu, Heddlu Gogledd Cymru) | |
| **Ar ran y Gwasanaeth Tan:** | Mr Bob Gunton | |

## 1. <u>DATGAN CYSYLLTIAD PERSONOL</u>

Adroddodd y Cynghorydd Eryl Jones-Williams, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog, bod ganddo berthnasau yn byw ddim yn bell o'r eiddo ond nad oeddynt wedi gwrthwynebu'r cais. Gofynnodd i'r ymgeisydd a'i gynrychiolydd os oedd ganddynt unrhyw wrthwynebiad iddo wasanaethu ar yr Is-bwyllgor hwn. Cadarnhaodd Miss Jo Taylor nad oedd ganddi na'r ymgeisydd wrthwynebiad iddo wasanaethu i'r Is-bwyllgor.

## 2. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO – FARRINGTONS, BALMORAL HOUSE, 1 MARINE PARADE, ABERMAW

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ynglŷn â chais eiddo Farringtons, Balmoral House, 1 Marine Parade, Abermaw, i ddiwygio amodau'r drwydded fel y caniateir y gwerthiant o alcohol heb y gofyn am brynu bwyd; ychwanegu gwerthiant o giosg ar y patio a thynnu 2 amod ynglŷn â dawnsio a cherddoriaeth byw.

**Adroddwyd:** Gan y Rheolwr Trwyddedu yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tan. Derbyniwyd sylwadau gan Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn tynnu sylw at ganiatâd cynllunio ar gyfer trosi adeilad o far, bwyty a gwesty i far, bwyty a llety a ganiatawyd ar 19 Mehefin 2000 a oedd yn cynnwys amod ar y caniatâd hwnnw yn nodi mai dim ond ar gyfer cwsmeriaid y bwyty y byddai'r bar yn yr eiddo ac nid ar gyfer aelodau cyffredinol o'r cyhoedd fel bar cyhoeddus. Yn ogystal caniatawyd codi ciosg ar gyfer bwyd poeth ar 18 Ebrill 1997 dan ganiatâd cynllunio cyfeirnod C97M/0024/00/CL a oedd yn cynnwys amodau yn cyfyngu'r defnydd i werthu bwyd poeth yn unig, a'i fod ond yn agored rhwng oriau 07.00 a 23.00 o ddydd Llun i ddydd Sul.

Tynnwyd sylw bod Cyngor Tref Abermaw yn gwrthwynebu'r cais oherwydd y byddai'n creu niwsans cyhoeddus gan fod Farringtons wedi ei leoli yn agos i ardal breswyl ac y byddai unrhyw wyriad i'r drwydded i ganiatáu gwerthu alcohol o giosg yn amharu ar fwynderau'r trigolion. Byddai'n annog yfed ac efallai ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd ar y palmant a'r ffordd tu allan i'r eiddo. Teimlai aelodau o'r Cyngor Tref y dylai'r drwydded aros 'run fath sef bod alcohol yn cael ei werthu gyda phryd o fwyd a fwyteir yn yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

i. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd i ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu

ii. Gwahoddwyd yr Ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais;

iii. Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau**.**

iv. Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau

v. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded

vi. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

vii. Cafodd yr Ymgeisydd neu ei gynrychiolydd gyfle i grynhoi eu hachos

Gwahoddwyd yr ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau a gyflwynwyd trwy lythyr a mynegodd Mr Bob Gunton, ar ran y Gwasanaeth Tan, nad oedd gan y gwasanaeth unrhyw wrthwynebiad yn ddarostyngedig i dderbyn y ddogfennaeth berthnasol a ofynnwyd amdano sydd yn angenrheidiol fel rhan o'r Drwydded sef darparu Asesiad Risg Tan addas a digonol; cyflwyno Tystysgrif o gynnal a chadw'r sustem Larwm Tan, cynnal a chadw'r diffoddwyr tân ynghyd â darparu Cynllun Rheoli Diogelwch Tân.

Nododd Mr Ian Williams ar ran Heddlu Gogledd Cymru nad oedd ganddynt dystiolaeth i'w galluogi i wrthwynebu'r cais i ddileu'r amod sydd yn cyfeirio at y gwerthiant o alcohol yn atodol i bryd o fwyd yn unig. Deallir, yn dilyn sgwrs gyda Mr Brian Hennessey ar ran yr eiddo, ei fod wedi cytuno i beidio â pharhau gyda'r cais i gael gwerthu alcohol o'r ciosg ar y patio allanol.

Wrth gefnogi'r cais ac ymateb i rai o'r sylwadau uchod, hysbysodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd:

- Eu bod yn derbyn y sylwadau uchod a bod trefniadau mewn llaw i anfon y ddogfennaeth berthnasol i'r Gwasanaeth Tân
- Cadarnhawyd nad oedd bwriad gan yr ymgeisydd bellach i werthu alcohol o'r ciosg a thra'n derbyn pryderon y Cyngor Tref cwestiynwyd a oeddynt yn ymwybodol nad oedd bwriad bellach i ddefnyddio'r ciosg
- Pwrpas diwygio amodau i ganiatau gwerthu alcohol heb y gofyn am brynu bwyd ydoedd i fedru denu cwsmeriaid megis cyplau / teuluoedd i fedru cael diod alcohol mewn awyrgylch hamddenol ac i dynnu'r 2 amod ynglyn â dawnsio a cherddoriaeth byw a oedd wedi eu hetifeddu ar drosglwyddiad y drwydded i'r perchennog presennol
- Yng nghyd-destun cerddoriaeth byw, cadarnhawyd y byddai'r ymgeisydd yn sicrhau bod drysau a ffenestri wedi cau, lle bo hynny'n bosibl, er mwyn cymryd i ystyriaeth fwynderau trigolion cyfagos
- Ni ragwelir y cynhelir cerddoriaeth byw yn rheolaidd ond bod amod ar y drwydded i ganiatau hyn ar gyfer nosweithiau thema achlysurol neu nosweithiau o ddathliadau arbennig
- Sicrhawyd na fyddai dawnsio i'w gynnal tu allan i'r eiddo
- Sicrhawyd hefyd y byddai gwerthiant yr alcohol yn digwydd tu fewn i'r eiddo gyda hawl i fwyta ac yfed ar y patio a chadarnhawyd y byddai'r patio yn rhan o'r drwydded ar gyfer bwyta ac yfed diodydd

- Bod y fflatiau uwchben yr eiddo ar hyn o bryd yn wag ac nid oedd bwriad i'w gosod i'r dyfodol

Gadawodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd, cynrychiolydd yr Heddlu, cynrychiolydd y Gwasanaeth Tân, y Rheolwr Trwyddedu a'r Swyddog Trwydded y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

<u>Atal Trosedd ac Anrhefn.</u>
Nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi ei gyflwyno ynglŷn â phroblemau yn yr eiddo. Yn bennaf, cadarnhaodd yr Heddlu nad oeddynt wedi derbyn unrhyw gwynion yn berthnasol i'r eiddo. Ystyriwyd pryderon y Cyngor Tref y buasai gwerthu alcohol o'r caban yn annog yfed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y llwybr troed a'r ffordd oddi allan i'r eiddo. Fodd bynnag, nid oedd y cais bellach yn cynnwys y caban a buasai yfed alcohol yn gyfyngedig i ardal y patio.

<u>Diogelwch Cyhoeddus.</u>
Ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â'r amcan trwyddedu yma.

<u>Atal Niwsans Cyhoeddus.</u>
Cymerodd yr Is-Bwyllgor i ystyriaeth y ffaith y buasai miwsig byw yn medru creu problemau i drigolion cyfagos. Fodd bynnag, ystyriwyd y ffaith nad oedd tystiolaeth o unrhyw broblemau yn yr eiddo, nag ychwaith bod dim gwrthwynebiadau oddi wrth drigolion cyfagos na'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd. Credir, fodd bynnag, y dylai'r drysau a ffenestri gael eu cau ar ôl 22.30 awr i leihau sŵn yn deillio o'r eiddo.

<u>Gwarchod Plant rhag Niwed.</u>
Nid oedd unrhyw dystiolaeth perthnasol i'r amcan trwyddedu yma.

Felly yn dilyn ystyriaeth ofalus o'r cais, a chymryd i ystyriaeth yr holl dystiolaeth amlinellwyd yn Neddf Trwyddedu 2003,

**PENDERFYNWYD: Caniatau'r newidiadau canlynol i'r drwydded eiddo :-**

1. **Miwsig byw (paragraff E) i gymryd lle tu mewn yn unig ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol :**
   **11:00 i 23:00 awr Dydd Llun i Ddydd Sul.**

2. **Perfformiadau Dawnsio (paragraff G) i gymryd lle tu mewn yn unig ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol :-**
   **11:00 i 23:00 awr Dydd Llun i Ddydd Sul.**

3. **Cyfleusterau ar gyfer perfformio miwsig (paragraff I) i gymryd lle tu mewn yn unig ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol :-**
   **11:00 i 23:00 awr Dydd Llun i Ddydd Sul.**

4. **Darpariaethau ar gyfer Dawnsio (paragraff J) i gymryd lle tu mewn yn unig ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol :-**
   **11:00 i 23:00 awr Dydd Llun i Ddydd Sul.**

5. **Cyflenwi Alcohol (paragraff M) ar gyfer yfed alcohol yn yr eiddo yn unig ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol :-**
   **11:00 i 00:00 awr Dydd Llun i Ddydd Sadwrn.**
   **11:00 i 23:00 awr Dydd Sul**
   **gyda'r cyflenwi tu mewn i'r adeilad yn unig.**

6. **Oriau Agor yr Eiddo i'r Cyhoedd (paragraff O) ar y dyddiau a'r amseroedd canlynol:**

   **06:00 i 00:30 awr Dydd Llun i Ddydd Sadwrn.**
   **06:00 i 00:00 awr Dydd Sul.**

7. **Ffenestri a drysau i fod wedi eu cau o 22:30 awr hyd at ddiwedd yr adloniant trwyddedig pan fydd miwsig byw ymlaen yn yr eiddo.**

8. **Yr eiddo trwyddedig i gynnwys y patio.**

9. **Mae'r amrywiadau uchod yn amodol i wybodaeth angenrheidiol gael ei roi i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai'n anelu at anfon llythyr o fewn pum diwrnod gwaith yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn eu hysbysu o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Nododd y Cadeirydd bod cynnal yr Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog mewn Ystafell Gyfarfod yn creu naws anffurfiol gyda phawb yn cyfrannu'n adeiladol o amgylch y bwrdd o'i gymharu â'i gynnal mewn awyrgylch ffurfiol yn Siambr y Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 11.30 a.m.